**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/316/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Medi 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Rydych wedi gofyn a allai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfiawnhad pellach dros y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau polisi a gyflwynwyd gan y Rheoliadau, yn benodol yng nghyd-destun hawliau dynol.

Er budd llywodraethu mewn modd sy'n dryloyw ac atebolrwydd, mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ymwybodol o'r angen i egluro'n llawn y rhesymau y tu ôl i unrhyw benderfyniad y mae'n ei gwneud. Yn achos y Rheoliadau hyn, mae'r sail resymegol y tu ôl i'r newidiadau i'w weld yn glir mewn adran o'r Memorandwm Esboniadol, sef Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. Hefyd, mae'r hyn a geir o dan Costau a Manteision yn yr adran Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y ddogfen honno yn edrych ar y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru gydbwyso'r dadleuon o blaid gwneud y newidiadau a'r dadleuon yn erbyn. Rydym yn fodlon bod y Rheoliadau'n cyd-fynd â'r Confensiwn fel y nodir yn y dogfennau uchod, ac nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at hynny.

Wedi dweud hynny, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y crynodeb o'r asesiad effaith integredig sydd wedi'i gyhoeddi, rhag ofn bod hynny'n rhoi rhagor o fanylion i chi. Dyma'r ddolen at yr asesiad effaith integredig:

https://llyw.cymru/diwygio-tenantiaethau-sicr-thenantiaethau-byrddaliadol-sicr-asesiad-effaith-integredig

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.